CIC

Diolch yn fawr i Andrew a Dafydd am arwain cyfarfod CIC yn Capel Coch nos Wener. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch nos Wener, Tachwedd 28.

Cofiwch bod croeso cynnes i unrhyw un o Flwyddyn 6 ymlaen i'r cyfarfod hwn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Mawrth, Tachwedd 21: Bydd cyfarfod yn Eglwys Llandinorwig am 10.30 o'r gloch y bore i gyflwyno gwybodaeth am y cynllun 'Agor y Llyfr' y gobeithir ei gyflwyno yn Ysgol Gwaun Gynfi yn y flwyddyn newydd.
Nos Fercher, Tachwedd 19: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.
Dydd Sul, Tachwedd 23: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Tachwedd 19: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.
Dydd Sul, Tachwedd 23: Bydd yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 23: Dim oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Tachwedd 21: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 16
10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 23
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Tachwedd 30
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Rhagfyr 7
9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 16
10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal Colin Jones a Gareth Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd

Tachwedd 23
10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 30
10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Rhagfyr 7
10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 613 – Dydd Sul, 16 Tachwedd, 2014

Philea – esboniad syml

Mae melin bapur ar Lannau Dyfrdwy yn bwriadu cael gwared ag un o'i dau beiriant, a hynny'n golygu bod 130 o swyddi yn y fantol. Cynhyrchu papur ar gyfer y diwydiant papurau newydd y mae'r felin, a'r ffaith bod llai o bapurau newydd yn cael eu gwerthu heddiw sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwn.

Yn sgil y cyhoeddiad hwn, clywais drafodaeth radio ynghylch sut y mae pobl yn 'cael' y newyddion erbyn hyn. Mae llai o bobl yn prynu papur newydd am eu bod yn dibynnu fwyfwy nid yn unig ar deledu a radio ond ar wasanaeth newyddion ar gyfryngau digidol fel ffonau symudol a thabledi electroneg, heb sôn am 'gyfryngau cymdeithasol' fel Twitter ac ati. O'r cwbl, y teledu, mae'n debyg, yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o'r cyfan ar hyn o bryd.

Ond nid felly i mi. Rwy'n tueddu i ddibynnu mwy o lawer ar y radio a'r papur newydd i gael y newyddion. Ac erbyn hyn, rwyf hyd yn oed yn gweld mwy ohono ar sgrin cyfrifiadur nag ar sgrin teledu.

Ar y radio yn fwy na dim y clywais am Rosetta a Philea'r wythnos ddiwethaf. Rosetta yw'r chwiliedydd a anfonwyd i'r gofod ym mis Mawrth 2004 gan yr Asiantaeth Gofod Ewropeaidd. Wedi deng mlynedd o deithio trwy'r gofod cyrhaeddodd at Gomed 67P fis Awst eleni. Bu'n cylchdroi o amgylch y gomed ers hynny, nes iddi'r wythnos ddiwethaf ollwng landiwr (Philae) ar wyneb y gomed, ac am rai dyddiau bu hwnnw'n anfon gwybodaeth am y gomed yn ôl i'r ddaear. Erbyn hyn, mae batri Philae wedi marw, ac ni all anfon rhagor o negeseuon.

Mae'r cyfan yn ddirgelwch i mi, ac ni allaf ddechrau deall y wyddoniaeth na'r dechnoleg a wnaeth y cyfan yn bosibl. Dyna pam yr oeddwn mor falch o weld llun syml a wnaed gan wyddonydd blaenllaw o Brifysgol Manceinion, Dr Heather Williams, er mwyn esbonio i'w phlant 6 ac 8 oed beth a ddigwyddodd i'r landiwr. Mae'r llun yn dangos bod Philae wedi bownsio ddwywaith wrth lanio ar y gomed. A chan iddo lanio wyneb i waered nid oedd modd iddo ail-lenwi'r batri trwy ei baneli solar. Ond fe lwyddodd i anfon yr holl wybodaeth wyddonol a gasglodd yn ôl i'r ddaear cyn i'r batri farw.

Roedd darlun syml Dr Williams yn ddigon i greadur fel fi. Buan iawn y byddwn i ar goll yn llwyr pe dechreuai hi fanylu ynghylch y wyddoniaeth a'r dechnoleg. Mae'r Beibl yn un modd yn llawn o ddarluniau a chrynodebau syml o'r Efengyl a'r iachawdwriaeth sydd i ni trwy'r Arglwydd Iesu Grist. Gellid manylu ynghylch honno gan fod yr hyn y gellir ei ddweud am ffordd iachawdwriaeth a dyfnderoedd cariad Duw yn ddiderfyn. Ond diolch hefyd am y mynegiant syml sydd gennym o'i gwirionedd, fel yr adnod, 'Os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi' (Rhuf. 10:9).

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd oedfa'r bore yn Capel Coch yng ngofal Colin Jones a Gareth Jones, a diolchwn iddynt am baratoi ac arwain yr oedfa. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ac yna, am 5.00 o'r gloch ceir oedfa dan arweiniad merched Parti Bytholwyrdd, a diolchwn iddynt hwy hefyd am baratoi ac arwain yr oedfa.

Yn Neiniolen, bydd yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Owain, Nia a Sian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr Gwynfryn Griffiths, 58 Maes Padarn, Llanberis, a fu farw ar Dachwedd 1. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Jerusalem, Llanberis ddydd Llun diwethaf. Dymunwn bob nerth a chysur i'r teulu cyfan yn eu colled.

Bocsys Nadolig

Heddiw yw dyddiad olaf i gyfrannu at apêl Ymgyrch Plentyn y Nadolig, ac felly dowch â'r bocsys neu'r rhoddion i'r capel neu yma i Gilfynydd erbyn heno os gwelwch yn dda. Byddaf yn mynd â'r cyfan i Wrecsam y cyfle cyntaf gaf fi'r wythnos hon.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch ddydd Mercher yr wythnos nesaf, Tachwedd 26 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau, byddem yn falch iawn ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad – yn cynnwys paned a bisged – fydd £1.

Croeso cynnes i bawb.

Cadeiriau

Diolch yn fawr i bawb a fu'n helpu i glirio'r stafell uwchben y gegin yn Capel Coch ddydd Llun diwethaf. Mae tair cadair set fawr y capel a oedd wedi eu symud i gyntedd y festri yn ddiweddar wedi eu cadw'n ddiogel yn y stafell hon uwchben y gegin erbyn hyn.

Agor y Llyfr

Dydd Mawrth, Tachwedd 21

Soniwyd yr wythnos ddiwethaf am y gobaith o allu cyflwyno'r cynllun 'Agor y Llyfr' yn rhai o ysgolion cynradd yr ardal gan ddechrau, os gellir trefnu, hynny yn Neiniolen.

Mae'n syniad syml iawn: mae tim o bobl yn darllen stori o fersiwn syml o'r Beibl i'r plant yn y gwasanaeth boreol. Mae gan y Parchg Carol Roberts dim o bobl sy'n cyflwyno 'Agor y Llyfr' yn Ysgol Cwm-y-glo bob pythefnos ers ychydig fisoedd. Mae hi'n awyddus iawn i allu gwneud peth tebyg mewn ysgolion eraill yn yr ardal.

Byddai angen tim o ryw 6 o bobl i wneud hynny, ac mae'n gobeithio y gall rhai o aelodau'r capeli gydweithio ag aelodau Eglwys Crist, Llandinorwig.

Os yw'r syniad o fod yn rhan o'r tim yn apelio at unrhyw un ohonoch bydd cyfle i glywed rhagor am y cynllun yn Eglwys Llandinorwig, fore Mawrth, Tachwedd 18 am 10.30 o'r gloch.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Tachwedd 19.

Hanes y Nadolig fydd y maes trafod am y cyfarfodydd nesaf. Bwriedir edrych ar yr hyn a ddywed y Beibl am faban Mair trwy gymryd y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore' yn fath o ddrws i mewn i'r Beibl ei hun.

Cardiau Nadolig

Mae cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael am £2 y pecyn gan Mrs Jane Thorman Jones gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

Ocsiwn

er budd
Cylch Meithrin Llanberis

7.30 o'r gloch
nos Wener, Tachwedd 21
yn Nghlwb Cymdeithasol Llanberis
Adloniant gan Fand Llanrug

Emyr Gibson o Rownd a Rownd
fydd yn rhedeg yr Ocsiwn

Amrywiaeth eang o bethau i'w prynu
yn cynnwys
Llun gan William Selwyn
Tocynnau Teulu i atyniadau lleol
ac anrhegion a nwyddau o bob math

Croeso cynnes i bawb

Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth croesawyd Mr Eifion Jones o Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Trwy fideo, sgwrs a thrafodaeth cawsom olwg ar y gwaith y mae'r Ambiwlans Awyr a'r tri hofrennydd sydd ganddo yng Nghymru yn ei wneud. Rydyn yn gyfarwydd â hofrennydd sydd ym Maes Awyr Caernarfon yn Ninas Dinlle wrth gwrs. Diolchwyd iddo gan Mrs Gwen Jones.

Gwnaed casgliad o £110 at Ambiwlans Awyr Cymru ar ddiwedd y cyfarfod, a cheir cyfle felly i gefnogi'r gwaith trwy ein rhoddion.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 21.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.